

# Cynnwys

## TGAU CBAC mewn Lletygarwch ac Arlwyo (GRADD UNIGOL A DWYRADD)

### I'w Addysgu o 2009

### I'w Ddyfarnu o 2011



	Tudalen
Crynodeb o'r Asesiad	2
Rhagarweiniad	5
Cynnwys y Fanyleb	8
Cynllun Asesu	16
Dyfarnu, Adrodd ac Ailsefyll	20
Gweinyddu'r Asesiad Dan Reolaeth	21
Disgrifiadau o'r Graddau	29
Y Cwricwlwm Ehangach	30
Atodiad	33

Manyleb unedol yw hon: gellir cofrestru ymgeiswyr am unedau ar wahân ar adegau penodol yn ystod y cwrs.

Ni fydd y fanyleb hon ar gael i ganolfannau yn Lloegr ar gyfer dyfarniadau pwnc o'r haf 2014: rhaid i ganolfannau Lloegr ddilyn fersiwn llinol y fanyleb.

## Lletygarwch ac Arlwyo

### CRYNODEB O'R ASESIAD

#### ARLWYO (GRADD UNIGOL)

ASESU	Pwysiad
<p><b>UNED 1: Sgiliau Arlwyo cysylltiedig â pharatoi a gweini bwyd</b></p> <p>Tasg dan Reolaeth <span style="float: right;">120 marc (120 GMU)</span>                      Dwy dasg ymarferol wedi'u dewis o gronfa o chwe thasg wedi'u gosod gan CBAC. Wedi'i hasesu'n fewnol gan ddefnyddio meini prawf gosod CBAC ac wedi'i safoni'n allanol.</p> <p>Cyfanswm o 45 awr.</p>	60%
<p><b>UNED 2: Arlwyo, bwyd a'r cwsmer</b></p> <p>Papur Ysgrifenedig <span style="float: right;">1¼ awr</span> <span style="float: right;">80 marc (80 GMU)</span></p> <p>Un papur a gaiff ei osod a'i farcio'n allanol. Mae'r holl gwestiynau'n orfodol ac wedi'u targedu at ystod gyfan y graddau TGAU. Bydd y papur yn cynnwys cwestiynau atebion byr, strwythuredig ac ymateb rhydd wedi'u tynnu o'r cynnwys yn ymwneud ag arlwyo.</p> <p>Bydd yr arholiad hwn ar gael naill ai fel asesiad electronig neu fel papur ysgrifenedig traddodiadol.</p>	40%

#### LLETYGARWCH (GRADD UNIGOL)

ASESU	Pwysiad
<p><b>UNED 3: Sgiliau lletygarwch cysylltiedig â digwyddiadau ac achlysuron</b></p> <p>Tasg wedi'i seilio ar Ddigwyddiad <span style="float: right;">120 marc (120 GMU)</span>                      Un dasg wedi'i seilio ar ddigwyddiad o restr o dasgau gosod CBAC. Wedi'i hasesu'n fewnol gan ddefnyddio meini prawf gosod CBAC ac wedi'i safoni'n allanol.</p> <p>Cyfanswm o 45 awr.</p>	60%
<p><b>UNED 4: Lletygarwch a'r cwsmer</b></p> <p>Papur Ysgrifenedig <span style="float: right;">1¼ awr</span> <span style="float: right;">80 marc (80 GMU)</span></p> <p>Un papur a gaiff ei osod a'i farcio'n allanol. Mae'r holl gwestiynau'n orfodol ac wedi'u targedu at ystod gyfan y graddau TGAU. Bydd y papur yn cynnwys cwestiynau atebion byr, strwythuredig ac ymateb rhydd wedi'u tynnu o'r cynnwys yn ymwneud â lletygarwch.</p>	40%

**LLETYGARWCH AC ARLWYO (DWYRADD)**

ASESU	Pwysiad
<p><b>UNED 1: Sgiliau Arlwyo cysylltiedig â pharatoi a gweini bwyd</b></p> <p>Tasg dan Reolaeth <span style="float: right;">120 marc (120 GMU)</span></p> <p>Dwy dasg ymarferol wedi'u dewis o gronfa o chwe thasg a osodir gan CBAC. Wedi'i hasesu'n fewnol gan ddefnyddio meini prawf gosod CBAC ac wedi'i safoni'n allanol.</p> <p>Cyfanswm o 45 awr.</p>	30%
<p><b>UNED 2: Arlwyo, bwyd a'r cwsmer</b></p> <p>Papur Ysgrifenedig <span style="float: right;">1 ¼ awr</span> <span style="float: right;">80 marc (80 GMU)</span></p> <p>Un papur ysgrifenedig a gaiff ei osod a'i farcio'n allanol. Mae'r holl gwestiynau'n orfodol ac wedi'u targedu at ystod gyfan y graddau TGAU. Bydd y papur yn cynnwys cwestiynau atebion byr, strwythuredig ac ymateb rhydd wedi'u tynnu o'r cynnwys yn ymwneud ag arlwyo.</p> <p>Bydd yr arholiad hwn ar gael naill ai fel asesiad electronig neu fel papur ysgrifenedig traddodiadol.</p>	20%
<p><b>UNED 3: Sgiliau lletygarwch cysylltiedig â digwyddiadau ac achlysuron</b></p> <p>Tasg wedi'i seilio ar Ddigwyddiad <span style="float: right;">120 marc (120 GMU)</span></p> <p>Un dasg wedi'i seilio ar ddigwyddiad o restr o dasgau gosod CBAC. Wedi'i hasesu'n fewnol gan ddefnyddio meini prawf gosod CBAC ac wedi'i safoni'n allanol.</p> <p>Cyfanswm o 45 awr.</p>	30%
<p><b>UNED 4: Lletygarwch a'r cwsmer</b></p> <p>Papur Ysgrifenedig <span style="float: right;">1 ¼ awr</span> <span style="float: right;">80 marc (80 GMU)</span></p> <p>Un papur a gaiff ei osod a'i farcio'n allanol. Mae'r holl gwestiynau'n orfodol ac wedi'u targedu at ystod gyfan y graddau TGAU. Bydd y papur yn cynnwys cwestiynau atebion byr, strwythuredig ac ymateb rhydd wedi'u tynnu o'r cynnwys yn ymwneud â lletygarwch.</p>	20%

**CYFLEOEDD ASESU**

	Cod Cofrestru		Mehafin 2010	Ion 2011 tan Ion 2013	Ion 2014 ymlaen	Mehafin 2011 a phob blwyddyn wedi hynny
	Pwnc	Opsiwn*				
Uned 1	4731	01 neu W1				✓
Uned 2	4732	01 neu W1	✓	✓	✓	✓
Uned 3	4741	01 neu W1				✓
Uned 4	4742	01 neu W1	✓	✓		✓
Gradd Unigol (Arlwyo)	4730	SA neu GU				✓
Gradd Unigol (Lletygarwch)	4740	SA neu GU				✓
Dwyradd (Lletygarwch ac Arlwyo)	4748	DA neu DW				✓

**\* Codau Opsiwn**

Cyfrwng Saesneg 01, Cyfrwng Cymraeg W1 - ar gyfer unedau  
 Cyfrwng Cymraeg GU, Cyfrwng Saesneg SA - ar gyfer gradd unigol  
 Cyfrwng Cymraeg DW, Cyfrwng Saesneg DA - ar gyfer dwyradd

**D.S. Mae'r dystysgrif gyntaf am y Radd Unigol a'r Dwyradd yn yr Haf 2011.**

**Rhifau Achredu'r Cymhwyster**

500/4462/X (Arlwyo - Gradd Unigol) hyd at 2013 600/5577/7 (Arlwyo - Gradd Unigol) o 2014  
 500/4463/1 (Lletygarwch - Gradd Unigol) hyd at 2013 600/5576/5 (Lletygarwch - Gradd Unigol) o 2014  
 500/4504/0 (Lletygarwch ac Arlwyo - Dwyradd) hyd at 2013 600/5573/X (Lletygarwch ac Arlwyo - Dwyradd) o 2014



# LLETYGARWCH AC ARLWYO

## 1 RHAGARWEINIAD

### 1.1 Rhesymeg

Mae'r fanyleb hon yn cynnig cymhwyster cysylltiedig â galwedigaeth sy'n darparu ar gyfer Lefelau 1 a 2 (Sylfaen a Chanolradd) y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

Mae cwrs mewn *Lletygarwch ac Arlwy* yn cynnig cyfle arbennig yn y cwricwlwm i ymgeiswyr ddatblygu eu gwybodaeth ac estyn eu sgiliau mewn lletygarwch ac arlwy mewn cyd-destun galwedigaethol. Bydd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhyngddisgyblaethol ymgeiswyr, amrywiaeth o Sgiliau Allweddol a'u gallu i feddwl yn ddychmygus ac yn ddyfeisgar, i fod yn greadigol ac annibynnol.

Mae'n gymhwyster addas i rai sydd am gael cefndir eang yn y maes hwn ac i rai sydd am fynd ymlaen i addysg bellach. Bydd yn cynnig paratoad gwerthfawr i rai sy'n mynd i mewn i fyd gwaith.

Mae'r fanyleb yn annog archwilio ac astudio lletygarwch ac arlwy mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Yn y cyd-destunau hyn rhoddir i ymgeiswyr gyfleoedd i feithrin hyfedredd, gallu a sgiliau beirniadol trwy greu, gweithredu, defnyddio a gwerthuso amrywiaeth o adnoddau.

Gall ymgeiswyr o bob diwylliant ac o'r ddau ryw ddatblygu eu diddordeb yn y maes galwedigaethol hwn, a'u mwynhad a'u hystyriaeth feirniadol ohono.

Mae'r fanyleb yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau asesu i alluogi'r ymgeiswyr i ymateb trwy waith ymarferol ac archwilio.

### 1.2 Nodau a Chanlyniadau Dysgu

Dylai dilyn cwrs TGAU Arlwy, Lletygarwch a Lletygarwch ac Arlwy annog dysgwyr i:

- gael eu hysbrydoli, eu symbylu a'u newid trwy ddilyn cwrs astudio eang, cydlynus, boddhaol a gwerth chweil a chael golwg ar sectorau cysylltiedig.
- gwneud penderfyniadau gwybodus am gyfleoedd dysgu pellach a dewisiadau gyrfa.

Mae Arlwyo, Lletygarwch a Lletygarwch ac Arlwyo yn gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- y diwydiant: llety; bwyd a diod; blaen tŷ
- y mathau o gynnyrch a gwasanaethau a gynigir
- amrywiaeth o grwpiau cwsmeriaid
- rolau swydd, cyfleoedd gyrfa a hyfforddiant perthnasol
- ffurfiau priodol o gyfathrebu yn y diwydiant
- pwysigrwydd cadw cofnod
- yr amrywiaeth o offer sy'n cael ei ddefnyddio yn y diwydiant lletygarwch ac arlwyo.

### 1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Dylai ymgeiswyr sy'n cychwyn ar TGAU *Lletygarwch ac Arlwyo (Gradd Unigol/Dwyradd)* fod wedi cyrraedd lefel addysgol gyffredinol yn cyfateb i o leiaf Lefel 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol neu Lefel Mynediad 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Byddent yn cael bod y dysgu, y sgiliau a'r doniau canlynol yn ddefnyddiol:

- hyfedredd sylfaenol mewn llythrennedd
- hyfedredd sylfaenol mewn rhifedd
- dawn i weithio gydag chaledwedd a meddalwedd TGCh
- peth cymhelliad i weithio'n annibynnol.

Er nad oes gofyniad penodol am ddysgu blaenorol, mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar y Rhaglenni Astudio yng Nghyfnodau Allweddol 1-3.

Gall unrhyw ymgeisydd ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'u rhyw, cefndir diwylliannol, crefyddol neu ethnig. Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oed, ac fel y cyfryw, mae'n rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr estyn eu dysgu gydol oes.

Bwriedir y fanyleb hon i roi cyfleoedd ar gyfer dilyniant trwy amrywiaeth o lwybrau mewn addysg bellach (e.e. Safon Uwch TAG, Diplomâu), hyfforddiant (e.e. Prentisiaethau Modern) neu gyflogaeth.

## 1.4 Cydraddoldeb ac Asesiad Teg

Mae TGAU yn aml yn gofyn am asesu ystod eang o allu. Mae hyn oherwydd eu bod yn gymwysterau cyffredinol, ac felly'n paratoi ymgeiswyr ar gyfer ystod eang o alwedigaethau a chyrtsiau lefel uwch.

Cafodd y cymhwyster TGAU a'r meini prawf pwnc eu hadolygu i ganfod a oedd unrhyw rai o'r galluoedd yr oedd eu hangen ar y pwnc yn cynnig rhwystr i unrhyw ymgeisydd anabl. Os oedd hyn yn digwydd, cafodd y sefyllfa ei hadolygu eto i sicrhau y byddai galluoedd o'r fath yn cael eu cynnwys dim ond lle roeddynt yn hanfodol i'r pwnc. Cafodd canfyddiadau'r broses hon eu trafod gyda grwpiau anabledd a chyda phobl anabl.

Caiff addasiadau rhesymol eu gwneud i ymgeiswyr anabl er mwyn iddyn nhw allu cael mynediad i'r asesiadau. Am y rheswm hwn, ychydig iawn o ymgeiswyr fydd yn cael eu rhwystro'n llwyr rhag gallu cymryd rhan mewn unrhyw ran o'r asesiad. Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-Gyngor Cymwysterau (JCQ) *Rheoliadau ac Arweiniad: Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig*. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ar wefan y CGC (JCQ) ([www.icq.org.uk](http://www.icq.org.uk)) ac yn Gymraeg ar wefan CBAC.

Gall rhai agweddau ar yr asesiad dan reolaeth gynnis anawsterau i ymgeiswyr sydd ag anabledau penodol, fodd bynnag, bydd y dewis a gynigir yn y tasgau'n lliniaru effeithiau'r anhawster posibl hwn.

Efallai y gall ymgeiswyr sy'n dal i fethu â chael mynediad i ran sylweddol o'r asesiad, hyd yn oed ar ôl archwilio pob posibilrwydd trwy addasiadau rhesymol, dderbyn dyfarniad o hyd. Bydd modd iddynt dderbyn gradd am y rhannau o'r asesiad a gymerwyd a byddai nodyn ar eu tystysgrif nad aethpwyd i'r afael â'r holl alluoedd. Adolygir hyn o bryd i'w gilydd a gellir ei newid yn y dyfodol.

## 1.5 Codau Dosbarthu

Ar gyfer pob manyleb, rhoddir cod dosbarthu cenedlaethol sy'n nodi i ba faes pwnc y mae'n perthyn. Cod dosbarthu'r fanyleb hon yw 0007.

Dylai canolfannau fod yn ymwybodol na chaiff ymgeiswyr sy'n cofrestru am fwy nag un cymhwyster TGAU gyda'r un cod dosbarthu, ond un radd yn unig (yr uchaf) wedi ei chyfrif at ddibenion Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau.

Efallai y bydd canolfannau am gynghori ymgeiswyr, os byddant yn cymryd dwy fanyleb gyda'r un cod dosbarthu, bod ysgolion a cholegau'n debygol iawn o gymryd y safbwynt mai dim ond un o'r ddwy TGAU y maent wedi ei hennill. Gellir cymryd yr un safbwynt os yw ymgeiswyr yn dilyn dwy fanyleb TGAU sydd â gwahanol godau dosbarthu ond sydd â gorgyffwrdd sylweddol o ran cynnwys. Dylai ymgeiswyr sydd ag unrhyw amheuan ynghylch eu cyfuniadau pwnc ymgynghori â sefydliad y dymunant fynd ymlaen iddo cyn cychwyn ar eu rhaglenni.

## 2

## CYNNWYS

### ARLWYO (Unedau 1 a 2)

Mae'r unedau hyn yn canolbwyntio ar agweddau paratoi a gweini bwyd yn y diwydiant lletygarwch ac arlwyo a gellir eu hastudio fel Gradd Unigol neu fel cydran o dDwyradd lletygarwch ac arlwyo.

Trwy gydol y cwrs astudio, byddai'n fuddiol i ymgeiswyr fod y ganolfan yn datblygu cysylltiadau â sefydliadau, colegau AB a diwydiant lleol. Bydd cysylltiadau o'r fath yn sicrhau bod ymgeiswyr yn ennill profiadau realistig cysylltiedig â gwaith.

Meysydd astudio:

- Y diwydiant: – bwyd a diod.
- Rolau swydd, cyfleoedd gwaith a hyfforddiant perthnasol.
- Iechyd, diogelwch a hylendid.
- Paratoi bwyd, coginio a chyflwyno.
- Maetheg a chynllunio bwydlen.
- Costio a rheoli cyfrannau.
- Offer arbenigol.
- Cyfathrebu a chadw cofnod.
- Ystyriaethau amgylcheddol.

#### 1. Y diwydiant – bwyd a diod

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- Mathau o sefydliadau sy'n darparu bwyd a diod.
- Arlwyyr contract.
- Y mathau o wasanaethau sydd ar gael mewn gwahanol sefydliadau i gynnwys hunanwasanaeth, bwyd cyflym, caffeteria, bwyd parod, bwffe, plât, gwasanaeth gweini, gwerthu trwy beiriannau, gwasanaeth teithio.

#### 2. Rolau swydd, cyfleoedd gwaith a hyfforddiant perthnasol

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth o rolau, dyletswyddau a hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer:

- Rheoli – Rheolwr, Rheolwr Cynorthwyol.
- Cogyddion - Prif gogydd, Is-gogydd (Sous), Crwst, Pantri, Sawsiau, Llysiau, Cynorthwyol (Commis).
- Gwasanaeth Bwyd a Diod - Rheolwr Tŷ Bwyta, Staff Gweini.

Dylai'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o gyfleoedd gyrfa yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.



### 3. Iechyd, diogelwch a hylendid

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am y canlynol a dealltwriaeth ohonynt:

- Hylendid personol - golchi dwylo, hylendid cyffredinol y corff, adrodd am salwch, dillad amddiffynnol.
- Diogelwch bwyd - glendid, rheoli tymheredd, coginio, monitro a storio. Prif bwyntiau'r Ddeddf Diogelwch Bwyd.
- Achosion cyffredin halogi bwyd.
- Mathau cyffredin o wenwyn bwyd.
- Iechyd a diogelwch – arwyddion cyffredin iechyd a diogelwch, rhagofalon tân, defnyddio offer yn ddiogel. Prif bwyntiau'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.
- Gweithdrefnau cymorth cyntaf syml.
- Asesu Risg - adnabod a rheoli peryglon (HACCP). Cynllun pum pwynt yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Rheoliadau Tân.

### 4. Paratoi Bwyd, coginio a chyflwyno

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am y canlynol a gallu dangos:

- Pwysigrwydd lliw, gwead, blas, siâp, tymheredd ac amser.
- Anghenion y cwsmeriaid.
- Amrywiaeth eang o sgiliau coginio.
- Dulliau addas o goginio.
- Dulliau addas o gyflwyno.

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am:

- Y termau canlynol:
  - cyfwydydd
  - al dente
  - au gratin
  - bain-marie
  - brûlée
  - bouquet garni
  - coulis
  - croûtons
  - en croûte
  - entrée
  - flambé
  - garnais
  - julienne
  - marinade
  - mise en place
  - purée
  - lleihau
  - roux
  - sauté

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am:

- ddethol, storio, paratoi a gweini:
  - Cig, dofednod
  - Pysgod
  - Wyau
  - Cynnyrch llaeth
  - Grawnfwydydd, blawd, reis, pasta
  - Llysiau
  - Ffrwythau
  - Cynnyrch hwylus
  - Sawsiau
  - Cynnyrch toes sylfaenol
  - Cynnyrch crwst sylfaenol
  - Teisennau, teisennau sbwng a sgonau

## 5. Maetheg a chynllunio bwydlenni

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am:

- Swyddogaethau a ffynonellau'r prif faetholion.
- Canllawiau cyfredol bwyta iach.
- Dewisiadau llysiuol, alergeddau cnau, anoddefedd gwenith, anoddefedd lactos.
- Mathau o fwydlen - table d'hôte, à la carte a thema.

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am bwyntiau pwysig i'w hystyried wrth gynllunio bwydlen.

- Prydau cytbwys o ran maeth.
- Amrywiaeth lliw, blas, gwead.
- Bwydydd yn eu tymor.
- Adeg y flwyddyn.
- Sgiliau cogydd.
- Offer sydd ar gael.
- Math o allfa.
- Cost.
- Addasrwydd ac apêl i'r cleient.
- Amser sydd ar gael.
- Amrywiadau amlddiwylliannol.

## 6. Costio a rheoli cyfrannau

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am :

- Costio deunyddiau crau ar gyfer amrywiaeth o eitemau bwyd gan ddefnyddio ryseitiau safonol.
- Y dulliau priodol o reoli cyfrannau a'u harwyddocâd.

## 7. Offer arbenigol

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am:

- Offer arlwy mawr a bach
  - offer llaw
  - offer pŵer.
- Offer gweini bwyd mawr a bach
  - offer llaw
  - offer pŵer.
- Defnyddio offer paratoi a gweini bwyd yn ddiogel a gofalu amdanynt a'u glanhau.

## 8. Cyfathrebu a chadw cofnod

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am y canlynol a dealltwriaeth ohonynt:

- Bwysigrwydd cyfathrebu cadarn.
- Mathau o gyfathrebu a ddefnyddiwyd, e.e. llafar, ysgrifenedig, ffonau, ffacs, TGCh (e-bost, Rhyngrwyd).
- Pa fathau o gyfathrebu sy'n briodol i'r sefyllfa.
- Yr angen am gadw cofnod cywir, addas.
- Gwahanol ddulliau o gadw cofnod sy'n cael eu defnyddio mewn – rheoli stoc, cofnodi data a bwciadau tŷ bwyta.

## 9. Ystyriaethau amgylcheddol

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am:

- Arbed egni a dŵr, wrth baratoi bwyd.
- Lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff wrth baratoi a gweini prydau.
- Pam mae hi'n bwysig i'r diwydiant fynd i'r afael â'r meysydd hyn e.e. cynaliadwyedd.

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am:

- Amrywiaeth o gynnyrch a defnyddiau tafladwy sy'n cael eu defnyddio i bacio ac asesu eu haddasrwydd i'w pwrpas – apêl, rheoli tymheredd, ailgylchu, bioddiraddadwy, hylendid, cost, rhwyddineb storio a thrafod.

## **LLETYGARWCH (Unedau 3 a 4)**

Mae'r unedau hyn yn canolbwyntio ar agwedd lletygarwch y diwydiant lletygarwch ac arlwyo ac yn enwedig y sgiliau cysylltiedig â pharatoi a chynnal digwyddiadau ac achlysuron. Mae modd ei astudio fel gradd unigol neu fel elfen o ddyfarniad dwyradd lletygarwch ac arlwyo.

Trwy gydol y cwrs astudio, byddai'n fuddiol i ymgeiswyr i'r ganolfan ddatblygu cysylltiadau â sefydliadau, colegau AB a diwydiant lleol. Bydd cysylltiadau o'r fath yn sicrhau bod ymgeiswyr yn ennill profiadau realistig cysylltiedig â gwaith.

Meysydd astudio:

- Y diwydiant – lletygarwch.
- Mathau o wasanaeth a gynigir a'r grwpiau cleientiaid cysylltiedig.
- Rolau swydd, cyfleoedd gwaith hyfforddiant perthnasol.
- Cynllunio bwydlen, paratoi a chyflwyno.
- Cynllunio ar gyfer achlysuron a digwyddiadau.
- Costio bwydlenni a digwyddiadau.
- Gofal cwsmeriaid.
- Safonau gwasanaeth.
- Cyfathrebu a gwaith tîm.
- Ystyriaethau amgylcheddol.

### **1. Y diwydiant – lletygarwch**

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am strwythur y diwydiant lletygarwch a dealltwriaeth ohono.

- Gwestai, Gwestai Bach a sefydliadau eraill sy'n cynnig llety preswyl.

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth o'r diwydiant mewn perthynas â:

- Darparwr cyflogaeth cenedlaethol.
- Budd i'r economi lleol.
- Pwysigrwydd cysylltiadau rhwng lletygarwch a hamdden, teithio a thwristiaeth.

### **2. Mathau o wasanaeth a gynigir a'r grwpiau cleientiaid cysylltiedig**

Dylai'r ymgeisydd allu adnabod amrywiaeth o wahanol fathau o wasanaeth gan gynnwys:

- Llety.
- Prydau llawn.
- Byrbrydau, gan gynnwys te/coffi.
- Cyfleusterau cynhadledd ac achlysuron.

a gallu adnabod y prif grwpiau o gleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn:

- Busnes.
- Preifat.
- Gwahanol grwpiau oedran.

### 3. Rolau swydd, cyfleoedd gwaith a hyfforddiant perthnasol

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am y rolau swydd, y dyletswyddau a'r hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer:

- Rheolwyr.
- Swyddfa Flaen - Prif Groesawydd, Croesawydd Cynorthwyol, Porthor, Porthor Nos, Staff Gweinyddol, Concierge.
- Gwasanaethau Llety - Prif Geidwad Tŷ, Ceidwad Tŷ, Gwas Ystafell, Swyddog Cynnal a Chadw.
- Rheolwyr Cynhadledd.

Dylai'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o gyfleoedd gyrfa yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

### 4. Cynllunio bwydlen, paratoi a chyflwyno

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am:

- Grwpiau cwsmeriaid - yn cynnwys plant a llysiuwyr.
- Achlysuron - bwydlenni dathlu, bargeinion prydau, cynadleddau, bwydlenni gosod ar gyfer digwyddiadau.
- Bwyd cyflym, bwydlenni bwyd parod.
- Pwysigrwydd lliw, gwead, blas, arlliw, tymheredd ac amser wrth gynllunio a pharatoi bwydlenni.
- Cost a rheoli cyfrannau.

Dylai'r ymgeisydd allu dangos paratoi a gweini:

- Cawl.
- Cwrs cyntaf (poeth ac oer).
- Prif gwrs.
- Cyfwydydd.
- Pwdin (poeth ac oer).
- Diodydd (dialcohol).
- Byrbrydau/seigiau bach
- Sgiliau addas gosod bwrdd cysylltiedig â'r math o fwydlen.

### 5. Cynllunio ar gyfer achlysuron a digwyddiadau

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am:

- Fathau o achlysuron/digwyddiadau.
- Dyddiad ac amser.
- Dewis priodol o leoliad.
- Nifer o westeion.
- Bwydlen a mathau o weini.
- Costio.
- Hyrwyddo - hysbysebu.
- Addurn a chyflwyniad.
- Diwyg ystafell a diwyg bwrdd.
- Cardiau bwydlen/cardiau seddau.
- Staffio.
- Asesiad risg.

## 6. Costio bwydlenni a digwyddiadau

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth o egwyddorion sylfaenol costio a'r defnydd ohonynt:

- Defnyddiau a ddefnyddiwyd.
- Llafur.
- Elw.
- T.A.W.

## 7. Gofal cwsmeriaid

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am y canlynol a dealltwriaeth ohonynt:

- Pwysigrwydd sicrhau bod cwsmeriaid yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniant.
- Amrywiaeth o ddulliau o fesur bodlonrwydd cwsmeriaid, gan gynnwys adborth llafar ac ysgrifenedig.
- Gofal cwsmeriaid da i amrywiaeth o gwsmeriaid a sefyllfaoedd gwahanol.
- Dulliau addas o ddelio â phroblemau a gweithredoedd addas i'w cymryd, gan gynnwys ymatebion ar y pryd, ymatebion tymor byr a gweithredu tymor hir.
- Pwysigrwydd cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r cwsmer trwy:
  - Ymddangosiad
  - Hylendid
  - Agwedd
  - Safon cyfleusterau
  - Delwedd gorfforaethol, h.y. ffurfwisg, llenyddiaeth fusnes, hysbysebu.

## 8. Safonau gwasanaeth

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am:

- Safonau gwasanaeth derbyniol ar draws:
  - derbynfa/swyddfa flaen, gwasanaeth bwyd
  - cyfarfod, cyfarch a ffarwelio
  - ymateb i ymholiadau
  - delio â chwynion
  - cyflwyno biliau.
- Pwysigrwydd cynnig gwasanaeth dibynadwy i gwsmeriaid.
- Mesuriadau o sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd a pham maent yn bwysig.
- Barnu ansawdd.
- Gwobrwyo ansawdd.

## 9. Cyfathrebu a gwaith tîm

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am:

- Bwysigrwydd gwaith tîm effeithiol.
- Pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol yn y canlynol:
  - gweithdrefnau gweinyddol
  - bilio cwsmeriaid
  - systemau bwcio
    - gofal cwsmeriaid
  - Sgiliau TGCh
  - storio data personol
  - ffeilio, prosesu, ymholiadau
  - dulliau talu
  - gweithdrefnau a chofnodi
  - croesawu, iaith y corff, ateb anghenion, cwртеisi, gwybodaeth
  - cronfa ddata, sgiliau prosesu geiriau, e-bost
  - wedi'i reoli gan y 'Ddeddf Gwarchod Data'

## 10. Ystyriaethau amgylcheddol

Dylai fod gan yr ymgeisydd wybodaeth am:

- Arbed egni a dŵr cysylltiedig â'r sefydliad a'r cwsmer.
- Lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff.
- Deall pam mae hi'n bwysig i'r diwydiant fynd i'r afael â'r meysydd hyn e.e. cynaliadwyedd.

## 3

## CYNLLUN ASESU

Mae asesu ar gyfer TGAU Lletygarwch ac Arlwyo yn ddi-haen, h.y. mae pob uned yn darparu ar gyfer ystod lawn gallu ac yn caniatáu mynediad i raddau A\*-G neu A\*A\*-G-G ar gyfer y dyfarniadau gradd unigol a dwyradd fel y bo'n briodol.

Mae hon yn fanyleb sy'n cynnwys unedau sy'n caniatáu elfen o asesu fesul cam. Fodd bynnag, rhaid cymryd lleiafswm o 40% o'r asesu cyfan ar ddiwedd y cwrs. Ystyr hyn mewn gwirionedd yw bod rhaid cymryd o leiaf un o'r ddwy uned ar gyfer gradd unigol a dwy o'r pedair uned ar gyfer dyfarniad dwyradd fel 'asesiad terfynol'. Gall canolfannau benderfynu pa rai a ddefnyddir i fodloni'r rheol hon; gellir cymryd pob uned ar ddiwedd y cwrs pe dymunir.

## 3.1 Strwythur Gradd Unigol

I gael Gradd Unigol mewn naill ai Arlwyo neu Letygarwch mae gofyn i ymgeiswyr astudio dwy uned. **Naill ai** unedau 1 a 2 **neu** unedau 3 a 4.

TEITL	STATWS	UNED	PWYSIAD ASESU	DULL ASESU
Arlwyo	DEWISOL	1	60%	Asesiad Dan Reolaeth
		2	40%	Papur Ysgrifenedig
Lletygarwch	DEWISOL	3	60%	Asesiad Dan Reolaeth
		4	40%	Papur Ysgrifenedig

## 3.2 Strwythur Dwyradd

I gael Dwyradd mewn Lletygarwch ac Arlwyo mae gofyn i ymgeiswyr astudio pob un o'r pedair uned.

TEITL	STATWS	UNED	PWYSIAD ASESU	DULL ASESU
Arlwyo	GORFODOL	1	30%	Asesiad Dan Reolaeth
		2	20%	Papur Ysgrifenedig
Lletygarwch	GORFODOL	3	30%	Asesiad Dan Reolaeth
		4	20%	Papur Ysgrifenedig



### 3.3 Lefelau Rheolaeth

Caiff rheoliad yr asesiad dan reolaeth ei rannu'n dri cham.

- A. Gosod y dasg
- Wedi'i gosod yn allanol gan CBAC a chanolfannau'n gallu dewis a gosod mewn cyd-destun o fewn yr asesiad.
- B. Gwneud y dasg
- Ymchwil – lefel ganolig o reolaeth - lle y bo'n briodol gall hyn ddigwydd y tu allan i'r ganolfan.
  - Dadansoddi a gwerthuso – lefel ganolig o reolaeth, i'w gwblhau yn y ganolfan o dan oruchwyliaeth.
- C. Marcio'r Dasg
- Wedi'i marcio'n fewnol a'i safoni'n allanol.

Caiff tasgau eu hadolygu bob dwy flynedd.

### 3.4 Aseidiadau Uned

Bydd yr aseidiadau am bob uned fel a ganlyn:

#### **UNED 1: Sgiliau arlwyo cysylltiedig â pharatoi a gweini bwyd (Aseiad Dan Reolaeth (45 awr 60%))**

- (i) **TASG 1:** [20%]. **Un** dasg i'w dewis o gronfa o **dair** tasg a osodir gan CBAC. Wedi'i hasesu'n fewnol gan ddefnyddio meini prawf gosod CBAC ac wedi'i safoni'n allanol.  
Hyd: 15 awr ar y mwyaf.
- (ii) **TASG 2:** [40%]. **Un** dasg i'w dewis o gronfa o **dair** tasg a osodir gan CBAC. Wedi'i hasesu'n fewnol gan ddefnyddio meini prawf gosod CBAC ac wedi'i safoni'n allanol.  
Hyd: 30 awr ar y mwyaf i gychwyn yn ail hanner y cwrs.

#### **UNED 2: Arlwyo, bwyd a'r cwsmer (Papur Ysgrifenedig (1 ¼ awr 40%))**

Papur di-haen wedi'i osod a'i asesu'n allanol. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ymateb i gwestiynau atebion byr, strwythuredig a rhai ymateb rhydd o bob maes astudio yn yr uned.

Bydd rhai cwestiynau'n gofyn am ysgrifennu estynedig a byddant yn asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig. Caiff y papur ei gyflwyno ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb.

Bydd yr arholiad hwn ar gael naill ai fel asesiad electronig neu fel papur ysgrifenedig traddodiadol.

### **UNED 3: Sgiliau lletygarwch cysylltiedig â digwyddiadau ac achlysuron (Asesiad Dan Reolaeth (45 awr 60%))**

**Tasg Ar Sail Digwyddiad 60%.** Un dasg wedi'i seilio ar ddigwyddiad wedi'i dewis o restr o **dair tasg a osodir gan** CBAC. Gall canolfannau osod y dasg mewn cyd-destun lletygarwch realistig gan roi'r cyfle felly i ymgeiswyr gymryd rhan yn y broses gyfan.

Wedi'i hasesu'n fewnol gan ddefnyddio meini prawf gosod CBAC ac wedi'i safoni'n allanol.

Hyd: 45 awr ar y mwyaf.

### **UNED 4: Lletygarwch a'r cwsmer (Papur Ysgrifenedig (1 ¼ awr 40%))**

Papur di-haen wedi'i osod a'i asesu'n allanol. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ymateb i gwestiynau atebion byr, strwythuredig a rhai ymateb rhydd o bob maes astudio yn yr uned.

Bydd rhai cwestiynau'n gofyn am ysgrifennu estynedig a byddant yn asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig. Caiff y papur ei gyflwyno ar ffurf llyfryn cwestiwn ac ateb.

## **3.5 Amcanion Asesu**

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos eu gallu i wneud y canlynol:

### **AA1**

Galw i gof, dewis a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o amrywiaeth o gyd-destunau.

### **AA2**

Defnyddio sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gyllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.

### **AA3**

Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, ffynonellau a thystiolaeth, llunio barn resymegol a chyflwyno casgliadau.

Bydd pwysiad yr amcanion asesu ar draws unedau fel a ganlyn (Dwyradd mewn cromfachau):

<b>Uned</b>	<b>AA1</b>	<b>AA2</b>	<b>AA3</b>	<b>Cyfanswm</b>
UNED 1	5% (2.5)	40% (20)	15% (7.5)	60% (30)
UNED 2	30% (15)	–	10% (5)	40% (20)
UNED 3	5% (2.5)	40% (20)	15% (7.5)	60% (30)
UNED 4	30% (15)	–	10% (5)	40% (20)
<b>CYFANSWM PWYSIAD</b>	<b>35%</b>	<b>40%</b>	<b>25%</b>	<b>100%</b>

### 3.6 Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig

Ar gyfer unedau sy'n cynnwys ysgrifennu estynedig caiff ymgeiswyr Arlwyo a Lletygarwch eu hasesu ar ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig o fewn asesiad cyfan yr uned honno.

Mae cynlluniau marcio ar gyfer yr unedau hyn yn cynnwys y meini prawf penodol canlynol ar gyfer asesu cyfathrebu ysgrifenedig:

- darllenadwyaeth y testun; cywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg; eglurder ystyr;
- dethol ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas ac i gymhlethdod y testun;
- trefniadaeth gwybodaeth yn glir ac yn gydlynus; defnyddio geirfa arbenigol lle y bo'n briodol.

## 4

**DYFARNU, ADRODD AC AIL-SEFYLL**

Gellir ennill cymhwyster TGAU mewn Lletygarwch ac Arlwyo fel Gradd Unigol Arlwyo neu Lletygarwch neu fel Dwyradd Lletygarwch ac Arlwyo. Ar ôl cronni ar gyfer dyfarniad nid yw unedau ar gael tuag at gyfnewid ar gyfer dyfarniadau pellach.

Caiff cymwysterau TGAU Gradd Unigol eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A\* i G, gydag A\* yn radd uchaf. Caiff cymwysterau TGAU Dwyradd eu hadrodd ar raddfa pymtheg pwynt ( A\*\*A\*, A\*A, AA ac ati. – GG) gydag A\*\*A\* yn radd uchaf. Caiff cyrhaeddiad ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf posibl i gael gradd ei gofnodi fel U (di-ddosbarth) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Caiff canlyniadau unedau unigol eu hadrodd ar raddfa marciau unffurf (GMU) gyda'r cyfatebiaethau gradd canlynol:

GRADD	MWYAFSWM	A*	A	B	C	D	E	F	G
UNED 1	120	108	96	84	72	60	48	36	24
UNED 2	80	72	64	56	48	40	32	24	16
CYMHWYSTER									
GRADD UNIGOL ARLWYO	200	180	160	140	120	100	80	60	40

GRADD	MWYAFSWM	A*	A	B	C	D	E	F	G
UNED 3	120	108	96	84	72	60	48	36	24
UNED 4	80	72	64	56	48	40	32	24	16
CYMHWYSTER									
GRADD UNIGOL LLETYGARWCH	200	180	160	140	120	100	80	60	40

CYMHWYSTER – DWYRADD Marc Uchaf 400

A**A*	A**A	AA	AB	BB	BC	CC	CD	DD	DE	EE	EF	FF	FG	GG
360	340	320	300	280	260	240	220	200	180	160	140	120	100	80

Mae hon yn fanyleb sy'n cynnwys unedau sy'n caniatáu elfen o asesu fesul cam. Fodd bynnag, rhaid cymryd lleiafswm o 40% o'r asesu cyfan ar ddiwedd y cwrs. Ystyr hyn mewn gwirionedd yw bod rhaid cymryd o leiaf un o'r ddwy uned ar gyfer Gradd Unigol a dwy o'r pedair uned ar gyfer Dwyradd fel 'asesiad terfynol'. Gall canolfannau benderfynu pa rai a ddefnyddir i fodloni'r rheol hon; gellir cymryd pob uned ar ddiwedd y cwrs os dymunir.

Gellir ailsefyll asesiadau unwaith yn unig (gyda'r canlyniad gorau'n cyfrif) cyn cronni marciau ar gyfer dyfarniad y pwnc. Mae canlyniadau uned yn para tra bo'r fanyleb yn dal mewn grym.

## 5

**GWEINYDDU ASESIAID DAN REOLAETH****5.1 Gosod tasgau****UNED 1 – Sgiliau Arlwyo cysylltiedig â pharatoi a gweini bwyd**

Mae'r asesiad dan reolaeth wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

**Tasg 1 – (20%)**

Bydd ymgeiswyr yn dewis **un** o blith y gronfa o dasgau 'byw' sydd ar gael ar dudalen gartref y pwnc ar y wefan.

**Cynllun Marcio (20%) 40 marc****(15 awr)**

- (a) Cynllunio'r dasg.
- (b) Cyflawni'r dasg.
- (c) Gwerthuso'r dasg.

**\*(a) Cynllunio'r dasg: (10 marc)**

- Dylai ymgeiswyr ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i gynllunio'r dasg.
- Cyfiawnhau dewis o seigiau.

**(b) Cyflawni'r dasg: (20 marc)**

- Bydd ymgeiswyr yn cyflawni'r dasg gan ddefnyddio gwybodaeth am a dealltwriaeth o iechyd, hylendid a diogelwch wrth baratoi, cynhyrchu a gweini seigiau.
- Dylai ymgeiswyr ddangos defnydd o'r sgiliau canlynol:  
hylendid personol  
hylendid cegin  
diogelwch (bwyd, hunan)  
paratoi a chynhyrchu seigiau a ddewiswyd  
cyflwyno seigiau gorffenedig.

**\*(c) Gwerthuso'r dasg (10 marc)**

- Bydd ymgeiswyr yn gwerthuso seigiau mewn perthynas â'r canlynol:  
Derbyniol i'r defnyddiwr - blas, gwead ac ymddangosiad.  
Addasrwydd y seigiau a ddewiswyd i'r dasg.  
Cost y gyfran.
- Awgrymiadau ar gyfer gwelliannau gan gyfeirio at y dasg a osodwyd.

\*Rhaid i'r gwaith ysgrifenedig cefnogol **beidio** â bod yn fwy na phedair tudalen o A4 neu'r hyn sy'n cyfateb. Ni roddir marciau am gyflwyniad.

## Tasg 2 – (40%)

Bydd ymgeiswyr yn dewis **un** o blith y gronfa o dasgau 'byw' sydd ar gael ar dudalen gartref y pwnc ar y wefan.

Rhaid i bob tasg ddarparu ar gyfer dau le bwrdd.

### Cynllun Marcio (40%) 80 marc (30 awr)

#### \*(a) Archwilio a chynllunio'r dasg (25 marc)

Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- Defnyddio sgiliau ymchwil i archwilio'r dasg.
- Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddewis prydau.
- Cyfiawnhau'r rheswm dros ddewis pryd, i gynnwys costio a gwerth maeth.
- Cynllunio'r dasg a chynhyrchu dilyniant o waith.

#### (b) Cyflawni'r dasg (40 marc)

Dylai ymgeiswyr:

- Ddangos sgiliau cysylltiedig ag iechyd, hylendid a diogelwch wrth baratoi, cynhyrchu a gweini'r pryd.
- Defnyddio sgiliau i baratoi, cynhyrchu, cyflwyno a gweini'r pryd.

#### \*(c) Gwerthuso'r dasg (15 marc)

Dylai ymgeiswyr:

- Werthuso pa mor dderbyniol yw'r pryd a ddewiswyd i'r cwsmer, i gynnwys ymddangosiad, gwead a blas.
- Dadansoddi a thrafod gwerth maeth y pryd.
- Cyfrifo cost y pryd a llunio barn resymegol am faint yr elw.

\*Rhaid i'r deunydd cefnogol **beidio** â bod yn fwy na deg tudalen o A4 neu'r hyn sy'n cyfateb. Ni roddir marciau am gyflwyniad.

### UNED 3 – Sgiliau lletygarwch cysylltiedig â digwyddiadau ac achlysuron

Mae'r asesiad dan oruchwyliaeth wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

Tasg Wedi'i seilio ar Ddigwyddiad – (60%)

#### Tasg Wedi'i seilio ar Ddigwyddiad

Bydd ymgeiswyr yn cwblhau ffolio unigol sy'n cofnodi **un** digwyddiad a gynlluniwyd ac a gynhaliwyd o blith y gronfa o dasgau 'byw' sydd ar gael ar dudalen gartref y pwnc ar y wefan.

Gall y ganolfan roi cyd-destun i'r dasg i fod yn addas i'r ganolfan/adnoddau. Gall canolfannau ddewis gweithio gyda sefydliadau, diwydiant a choleg AB lleol, serch hynny, rhaid i'r ganolfan sicrhau rheolaeth yr asesu.

**Cynllun Marcio (60%) 120 marc**

**45 awr**

- (a) Archwilio'r dasg.
- (b) Cynllunio'r dasg.
- (c) Cyflawni'r dasg.
- (ch) Gwerthuso'r dasg.

(a) **Archwilio'r dasg** (20 marc)

Bydd ymgeiswyr yn ymchwilio i feysydd priodol i'r dasg a ddewiswyd.

Dylai'r rhain gynnwys:

- archwilio themâu/digwyddiadau
- lleoliad/trefniadau eistedd
- staff – rolau a chyfrifoldebau
- adnoddau – cost, offer, amser
- seigiau/bwydlen
- math o gwsmer.

(b) **Cynllunio'r dasg** (15 marc)

Bydd ymgeiswyr yn defnyddio gwybodaeth o'r ymchwil er mwyn cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer y dasg a ddewiswyd ganddynt. Dylai'r cynllun gweithredu manwl hwn gynnwys cyfeiriad at y canlynol:

- siart asesiad risg
- cynllun grŵp/unigolyn
- lleoliad
- seigiau/bwydlen
- costio/symiau/offer
- thema/cyflwyniad
- marchnata.

(c) **Cyflawni'r dasg** (60 marc)

Bydd ymgeiswyr yn defnyddio sgiliau a gwybodaeth ar gyfer y dasg.

Dylid cynnwys y canlynol:

- cyflwyniad personol
- arferion diogelwch/asesiad risg (gan gynnwys hylendid)
- sgiliau ymarferol
  - paratoi a chynhyrchu bwyd a diod
  - gweini bwyd a diod
  - gofal cwsmeriaid
- sgiliau trefnu
  - amser
  - dewis a defnyddio offer
  - defnyddio adnoddau.

(ch) **Gwerthuso'r dasg** (25 marc)

Dylai ymgeiswyr ddadansoddi a gwerthuso'r dasg gan gyfeirio at y meysydd canlynol:

- rheoli amser
- safon cyflwyniad personol
- arferion diogel a hylan
- sgiliau
- costio
- bodlonrwydd cwsmeriaid
- llwyddiant
- gwelliannau.

Dylid rhoi'r holl dystiolaeth am bob adran mewn ffolio na ddylai fod yn fwy na 15 tudalen A4 (neu'r hyn sy'n cyfateb). Ni roddir marciau am gyflwyniad.

Gall ymgeiswyr weithio mewn timau am fod hyn yn nodweddiadol o'r diwydiant ac mae'n bwysig o ran profiad ymgeiswyr. At ddibenion asesu ac i osgoi gormod o ddyblygu o fewn y tîm, rhaid i bob ymgeisydd gynhyrchu darn o waith y mae modd ei adnabod yn benodol.

## 5.2 Rheolaeth o ran Goruchwylio/Dilysu/Adborth

Disgwylir i athrawon arolygu ac arwain ymgeiswyr wrth gynhyrchu eu ffolios cefnogi. Bydd hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r rheoliadau ar gyfer cynhyrchu ffolios, e.e. y lle i gynllunio, drafftio a golygu; cydnabod ffynonellau; cyflwyno gwaith; dyddiadau cyflwyno;
- sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r meini prawf asesu, lefelau cyrhaeddiad y caiff y gwaith ei farnu yn eu herbyn a'r raddfa marciau/graddau i'w defnyddio;
- cynghori ymgeiswyr ar sut i fynd at eu tasgau a monitro eu cynnydd;
- dilysu bod y portffolio a asesir yn derfynol yn waith yr ymgeisydd ei hun a bod unrhyw gefnogaeth a roddir o fewn canllawiau neu'n rhoi gwybod i CBAC lle mae amheuaeth o gamymddwyn.



Caiff asesiad Uned 1 ei gwblhau'n unigol tra **gellir** trefnu Uned 3 mewn timau, yn enwedig yn y camau cynnar, ar yr amod bod modd i bob ymgeisydd weithiol i'w lefel allu a bod modd adnabod gwaith unigol pob un yn glir.

Gall ymchwil ddigwydd y tu allan i'r ganolfan yn ogystal â'r tu mewn i'r ganolfan. Mae angen i athrawon sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei defnyddio'n sail i waith pellach ac nid y gwaith ei hun.

Gellir gosod terfynau amser mewnol ar gyfer cyflwyno gwaith.

Gall athrawon roi sylwadau yn unig ar waith ar y gweill a'i ddychwelyd i'w ailddrafftio, ond rhaid llunio'r sylwadau mewn ffordd sy'n galluogi'r ymgeisydd i gymryd yr awenau i ddatblygu'r gwaith ymhellach. Dylai athrawon logio sylwadau ar gyfer ailddrafftio.

Dylid gwneud yn glir i ymgeiswyr na ellir gwneud gwaith pellach ar ôl i'r ffolio terfynol gael ei gyflwyno i'w asesu. Darperir rheoliadau ar gyfer ailgyflwyno dilynol ar ôl i uned gael ei graddio.

### Dilysu Asesiadau dan Reolaeth

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lofnodi mai eu gwaith hwy yw'r gwaith a gyflwynir ac mae'n ofynnol i athrawon/aseswyr gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r gwaith a gaiff ei asesu a bod hyn wedi ei wneud dan yr amodau angenrheidiol. Darperir copi o'r ffurflen ddilysu, sy'n ffurfio rhan o'r ddalen glawr ar gyfer gwaith pob ymgeisydd yn Atodiad 2. Mae hi'n bwysig nodi bod angen i **bob** ymgeisydd lofnodi'r ffurflen hon, ac nid yn unig y rhai y mae eu gwaith yn ffurfio rhan o'r sampl a anfonir at y safonwr. Nid oes angen rhoi gwybod i CBAC am gamymddwyn a ganfuwyd cyn bod yr ymgeisydd yn llofnodi'r datganiad dilysu, ond rhaid delio â hyn yn unol â threfnau mewnol y ganolfan.

Cyn gwneud unrhyw waith tuag at yr Asesiad dan Reolaeth, dylid tynnu sylw ymgeiswyr at Hysbysiad perthnasol y CGC (JCQ) i Ymgeiswyr. Mae hwn ar gael ar wefan y CGC ([www.jcq.org.uk](http://www.jcq.org.uk)) a chaiff ei gynnwys yn y *Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Gwaith Cwrs/Portffolios*. Ceir mwy o gyfarwyddyd ar atal llên-ladrad yn *Llên-ladrad mewn Arholiadau; Canllaw i Athrawon/Aseswyr* sydd hefyd ar gael ar wefan y CGC.

## 5.3 Cyflwyno Ffolios Cefnogi

Rhaid dilyn y gweithdrefnau canlynol.

- Rhaid cwblhau dalen sampl y ffolio a dalen glawr y ffolio.
- Rhaid cydnabod unrhyw ffynhonnell, deunydd a gopiwyd, dyfyniadau ac ati a rhoi cyfeiriadau lle y bo'n briodol (gall hyn fod ar ffurf atodiad).
- Rhaid i waith a gyflwynir i'w safoni fod yn hygyrch, e.e. wedi'i gynnwys mewn ffolder amlen neu wedi'i ddal ynghyd â thagiau clymu, ac nid ei roi mewn cyfres o waledi plastig neu rwymydd cylch swmpus.
- Gall gwaith gael ei gyflwyno trwy TGCh (e-ffolios)
- Os caiff ei roi mewn ffolder amlen, rhaid i hyn cael ei farcio'n glir ag enw a rhif y ganolfan, enw a rhif yr ymgeisydd.

## 5.4 Rheoli Amser

Dylai cyfanswm yr amser a neilltuir i dasgau'r asesiad dan oruchwyliaeth fod yn 45 awr am Uned 1 a 45 awr am Uned 3. Cynlluniwyd y cyfnod amser i roi'r hyblygrwydd mwyaf wrth gynnal y tasgau ac i fodloni anghenion yr ymgeiswyr y mae arnynt angen amser ychwanegol oherwydd anawsterau dysgu, er enghraifft. (Mae hyn yn cydymffurfio â dogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Ystyriaeth Arbennig*.)

## 5.5 Anodi Asesiad Dan Reolaeth

Dylid gwneud hyn trwy:

- (i) sylwadau crynodol ar ddalennau clawr yr Asesiad dan Reolaeth (HSC1, HSC2 ac HSC3).
- (ii) anodi Asesiad dan Reolaeth yr ymgeiswyr, h.y. yn yr ymyl neu yn y testun. Dylai hyn fod yn gryno ac i'r pwynt. Dylid tynnu sylw lle mae ymgeiswyr yn darparu tystiolaeth o gyrraedd lefel benodol o berfformiad mewn perthynas â'r amcanion asesu neu lle mae gwallau amlwg (e.e. gwallau ffaith, dehongli, diffiniad a theori) a lle mae'r gwaith yn amherthnasol.

Bwriad anodi yw cynorthwyo'r safonwr i ddeall yn llawnach sut mae'r athro wedi cyrraedd y marc a ddyfarnwyd i'r ymgeisydd.

## 5.6 Safoni Mewnol Asesiad dan Reolaeth

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod safoni gofalus yn digwydd lle y mae mwy nag un athro'n gyfrifol am farcio'r Asesiad dan Reolaeth. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau unffurfiaeth safonau o fewn canolfan. Gall hyn fod ar sawl ffurf: marcio ffolderi cyffredin gan ddefnyddio deunydd enghreifftiol a ddarperir gan CBAC neu ddeunydd archif y ganolfan ei hun; croesfarcio elfennau o bortffolios wrth iddynt gael eu cynhyrchu; ailasesiad o sampl o ffolderi o bob grŵp ar ddiwedd y cwrs.

Lle y mae safoni mewnol yn angenrheidiol dylai'r athro sy'n cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y broses hon ddarparu amlinelliad ysgrifenedig o'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer y safonwr allanol. Bydd y safonwr yn croesawu tystiolaeth o safoni mewnol. Rhaid i'r marc(iau) a gytunwyd yn derfynol gael ei/eu nodi'n glir.

## 5.7 Safoni Allanol Aseiad dan Reolaeth

Mae CBAC y safoni aseidiadau athrawon trwy archwilio'r Aseiniad Dan Reolaeth. Hysbysir canolfannau am ddyddiad cyflwyno'r Tasgau dan Reolaeth yn yr Amserlen Arholiadau a gyhoeddir a rhoddir enw'r safonwr yn nhymor y gwanwyn cyn yr achredu.

Mae *Llawlyfr Asesu Mewnol CBAC* yn rhoi cyfarwyddiadau am weinyddu gwaith a asesir yn fewnol.

O ganlyniad i safoni, gall marciau ymgeiswyr gael eu haddasu i ddod â marciau'r ganolfan i gydredeg â'r safon genedlaethol. Os yw'n angenrheidiol, bydd y safonwr yn gofyn am samplau ychwanegol o waith ac os oes angen, gellir galw am waith yr holl ymgeiswyr i'w safoni'n allanol beth bynnag fo nifer y ceisiadau. Yn yr achos hwn, caiff yr holl Aseidiadau dan Reolaeth eu hanfon at y safonwr.

Os oes pryder am y gweithdrefnau dyfarnu, bydd y broses apelio arferol yn gymwys.

Darperir adroddiad ar bob uned o dan y penawdau canlynol:

*Gweinyddu*: cyflwyniad y deunydd a darparu gwybodaeth i'r safonwr;

*Asesu*: defnyddio meini prawf, safonau marcio.

## 5.8 Cofnodi Marciau Asesiad dan Reolaeth

- (1) Caiff Ffurflen HC4a neu HC4b neu'r ddwy eu defnyddio i gofnodi marciau a anfonir at y safonwr.
- (2) Dylai dalennau clawr HC1, HC2, HC3 fod gyda'r sampl.
- (3) Bydd angen cyflwyno'r marciau ar-lein ar wefan ddiogel CBAC.

## 5.9 Cyflwyno Asesiad dan Reolaeth

Dylid cyflwyno'r canlynol:

- copïau o'r tasgau;
- nodiadau arweiniad cyffredinol a roddir i ymgeiswyr;
- rhestr o ddeunyddiau adnoddau a roddir i ymgeiswyr;
- taflen farcio gyfansawdd HSC4;
- Yr Asesiad Dan Reolaeth mewn rhwymwyr neu ffolderi clawr meddal gyda'r ddalen glawr (HSC1, HSC2 ac HSC3) wedi'i rhoi ar y blaen.

Ni ddylid cyflwyno deunydd y gallai ymgeiswyr fod wedi ei gasglu yn eu hymchwil fel copïau lluosog o holiaduron a deunydd wedi'i argraffu'n barod gan fusnesau.

## 5.10 Dychwelyd Asesiad dan Reolaeth

Caiff gwaith ei dychwelyd i ganolfannau gan y safonwr pan fydd y broses safoni wedi'i chwblhau. Caiff sampl o waith ei anfon at y Prif Safonwr a gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer Dyfarnu neu DPP neu fel deunydd enghreifftiol.

## 5.11 Cadw Asesiad dan Reolaeth

Mae angen i ganolfannau gadw'r Asesiadau dan Reolaeth tan ddiwedd mis Tachwedd yn dilyn yr Arholiad haf.

## 6

**DISGRIFIADAU O'R GRADDAU**

Rhoddir disgrifiadau gradd er mwyn rhoi syniad cyffredinol am safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr yn debygol o fod wedi'u dangos wrth gael graddau penodol. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys a nodir gan y fanyleb; ni chawsant eu cynllunio i ddiffinio'r cynnwys hwnnw. Bydd y radd gaiff ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall gwell perfformiadau mewn agweddau ar berfformiad ymgeiswyr wneud iawn am ddiffygion mewn rhai agweddau eraill.

**Gradd A**

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth fanwl am letygarwch a/neu arlwyo a dealltwriaeth drylwyr ohonynt.

Maent yn defnyddio gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd i gynllunio ac i gynnal archwiliadau a thasgau, gan weithio'n ddiogel a chyda gradd uchel o gywirdeb.

Maent yn dadansoddi ac yn gwerthuso'r dystiolaeth sydd ar gael, gan adolygu ac addasu eu dulliau lle y bo angen. Maent yn cyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gywir, gan lunio barn resymegol a chyflwyno casgliadau wedi'u cyfiawnhau.

**Gradd C**

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth gadarn am agweddau ar letygarwch a/neu arlwyo a dealltwriaeth ohonynt.

Maent yn defnyddio gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau addas mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd i gynllunio ac i gynnal archwiliadau a thasgau, gan weithio'n ddiogel a chyda chywirdeb.

Maent yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael, gan werthuso peth o'r wybodaeth yn glir, a chyda pheth cywirdeb. Maent yn llunio barn ac yn dod i gasgliadau priodol.

**Gradd F**

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth am agweddau sylfaenol o letygarwch a/neu arlwyo a dealltwriaeth ohonynt.

Maent yn defnyddio gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sylfaenol i gynllunio ac i gynnal archwiliadau a thasgau, gydag ymwybyddiaeth o'r angen am ddiogelwch a chywirdeb. Maent yn addasu eu dull yn sgîl cynnydd.

Maent yn adolygu eu tystiolaeth ac yn llunio casgliadau sylfaenol.

# 7

## Y CWRICWLWM EHANGACH

### Sgiliau Allweddol

Mae Sgiliau Allweddol yn ganolog i astudio TGAU Lletygarwch ac Arlwyo a gellir eu hasesu trwy gynnwys y cwrs a'r cynllun asesu perthnasol fel y'u diffinnir yn y fanyleb. Gellir datblygu'r sgiliau allweddol canlynol trwy gyfrwng y fanyleb hon ar lefelau 1 a 2:

- Cyfathrebu
- Datrys Problemau
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gweithio gydag Eraill
- Gwella Eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun

Darperir mapio cyfleoedd i olrhain datblygiad y sgiliau hyn yn erbyn gofynion tystiolaeth y Sgiliau Allweddol yn yr 'Enghreifftio Sgiliau Allweddol ar gyfer Lletygarwch ac Arlwyo' sydd ar gael ar wefan CBAC.

### Cyfleoedd ar gyfer Defnyddio Technoleg

Disgwylir i ymgeiswyr wneud defnydd effeithiol o TGCh mewn ffyrdd sy'n addas i anghenion y pwnc. Bydd cyfleoedd yn codi yn ystod gwaith cwrs lle y bydd disgwyl iddynt ddarganfod, dethol a syntheseiddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd. Bydd cyfleoedd yn codi hefyd yn ystod gweithgareddau ystafell ddosbarth arferol, e.e.

- defnyddio rhaglenni cronfa ddata i holi gwybodaeth a gofnodwyd o flaen llaw, fel gwybodaeth ddietegol/ cynnal lefelau stoc/ rheoli stoc;
- defnyddio prosesu geiriau a pheynnau graffeg i gynhyrchu archebion, bwydlenni, ac ati;
- meddalwedd HACCP;
- defnyddio CD-romau a gynhyrchwyd gan sefydliadau perthnasol fel BNF, Asiantaeth Safonau Bwyd;
- gwefannau rhyngwyd/perthnasol.

Bydd y gwaith hwn yn cynhyrchu tystiolaeth ar gyfer asesu sgil allweddol TGCh.

### Materion Ysbrydol, Moesol, Moesegol, Cymdeithasol, Deddfwriaethol, Economaidd a Diwylliannol

Mae'r fanyleb hon yn darparu fframwaith ac mae'n darparu cynnwys sy'n rhoi modd i gyrsiau unigol fynd i'r afael â materion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol, deddfwriaethol, economaidd, diwylliannol a materion eraill.

Mae'r fanyleb yn darparu cyfleoedd i ymgeiswyr lunio barn a phenderfyniadau a bydd yn cyfrannu'n sylweddol at eu dealltwriaeth o'r materion hyn.

## **Datblygiad Cynaliadwy, Ystyriaethau Iechyd a Diogelwch a Datblygiadau Ewropeaidd sy'n gyson â chytundeb rhyngwladol**

### **Datblygiad Cynaliadwy**

Mae angen i ymgeiswyr fod yn ymwybodol a faterion amgylcheddol o fewn y diwydiant lletygarwch ac arlwyo a bod yn sensitif i hyn.

Bydd y cyfleoedd hyn yn digwydd yn y fanyleb trwy astudio'r canlynol:

- gwaredu sbwriel;
- deddfwriaeth gyfredol sy'n gysylltiedig ag Iechyd Amgylcheddol;
- arferion gweithio hylan;
- storio a defnyddio deunyddiau glanhau yn gywir;
- pacio deunyddiau bioddiraddadwy a rhai wedi'u hailgylchu.

Rôl rheolaeth a goblygiad cymdeithasol diwydiant mewn perthynas â:

- lleihau gwastraff;
- lleihau ac arbed tanwydd;
- ailgylchu;
- aildefnyddio.

### **Ystyriaethau Iechyd a Diogelwch**

Mae Iechyd a Diogelwch yn greiddiol i holl agweddau'r fanyleb a disgwylir iddynt fod yn rhan annatod o'r holl ddysgu. Disgwylir i ymgeiswyr ystyried y ffactorau hyn wrth wneud eu tasgau a dylent weld eu perthynas â meysydd canlynol y fanyleb:

- Deddfau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Atal Damweiniau.
- Deddf Diogelwch Bwyd.
- Rheoliadau Hylendid Bwyd.
- Egwyddorion – ac atal gwenwyn bwyd, hylendid personol a dulliau gweithio hylan; gofalu am offer a'u defnyddio.

### **Datblygiadau Ewropeaidd**

Mae'r fanyleb hon, lle y bo'n briodol (er enghraifft Deddf Disgrifiadau Masnachol; labelu i safonau a chodau'r UE; ychwanegion a chadwolion bwyd – mae ymgeiswyr yn asesu, trafod a defnyddio'r wybodaeth hon wrth baratoi bwydydd ar gyfer grwpiau cleientiaid penodol) yn cefnogi addysg amgylcheddol, y dimensiwn Ewropeaidd ac addysg Iechyd, yn gyson â chytundebau cyfredol yr UE. Mae'r dull yn cydymffurfio â'r dyheadau yn ymwneud â'r dimensiwn Ewropeaidd mewn addysg ac addysg amgylcheddol, yn enwedig y rhai a fwriedir ar lefel yr aelod-wladwriaethau, a fynegwyd ym Mhenderfyniadau 1998 y Gymuned Ewropeaidd ac yng nghyfarfod y Gweinidogion Addysg o fewn y Cyngor.





## ATODIAD 1

- Uned 1 Sgiliau arlwyo cysylltiedig â bwyd paratoi a gweini: Tasg 1  
Tasg 2
- Uned 3 Sgiliau lletygarwch cysylltiedig ag Achlysuron Aseiad: Tasg Seiliedig ar Achlysur

## Uned 1 Trefn Asesu

Caiff y marc am bob tasg (tasg 1 a thasg 2) ei seilio ar farn am ba un o'r pedair lefel cyrhaeddiad - a phob un yn disgrifio gwaith ymgeisydd nodweddiadol yn gweithio tuag at raddau tybiannol G/F, E/D, C/B, A/A\* – sydd fwyaf addas i'r gwaith (gweler gridiau asesu).

### **D.S. Mae hi'n bwysig pwysleisio fod perthynas y marc/gradd yn dybiannol ac y bydd y broses ddyfarnu'n pennu'r ffiniau gradd gwirioneddol.**

Ni fydd gwaith ymgeiswyr bob amser yn ffitio'r disgrifiadau hyn, h.y. hyd yn oed o fewn un dasg gall fod proffil cymysg o sgiliau a dealltwriaeth; lle y dangosir sgiliau lefel uwch ond lle nad yw'r ymgeisydd wedi bodloni rhai o'r meini prawf lefel is dylid ystyried a yw'r ymgeisydd yn haeddu'r band marciau uwch. Rhaid cofio yn enwedig nad yw marciau llawn yn cael eu cyfyngu i ffolder 'model' damcaniaethol, a rhaid eu dyfarnu am waith gyda'r gorau y gellid ei ddisgwyl gan ymgeiswyr yn gweithio ar y lefel hon.

Ar ôl sefydlu'r lefel briodol o gyrhaeddiad, rhaid pennu marc penodol. Wrth wneud hyn, dylid ystyried yr agweddau canlynol:

- Ydy'r ymgeisydd ond wedi bodloni meini prawf ar gyfer lefel cyrhaeddiad (os felly dylent gael marc ar waelod y band) neu ydyn nhw wedi bodloni'r meini prawf yn gysurus (os felly dylent gael marc tuag at ben uchaf y band)?
- Ydy'r cyrhaeddiad yn gyson neu'n amrywio? Er enghraifft, bydd gwaith sy'n dangos tystiolaeth achlysurol o sgiliau dadansoddi, gan ei gymryd i fand C/B yn hytrach nag E/D, yn cael ei wobrwyo'n llai uchel yn y band hwnnw na gwaith lle y mae'r sgiliau hyn yn amlwg yn fwy cyson. Yr un pryd, mae hi'n bwysig nodi na ddylai swm y dystiolaeth *ohono'i hun* ddylanwadu'n ormodol ar yr asesu.
- A oes unrhyw heriau penodol a gyflwynir gan y dasg arbennig a wneir (e.e. o ran deunyddiau/cyd-destun neu ddull) y dylid eu hystyried (h.y. galwadau cynhenid yn y dasg hyd yn oed os disgwylir i'r gwahaniaethu fod yn bennaf yn ôl canlyniad)?

**UNED 1 SGILIAU ARLWYO****Tasg 1 – Meini prawf ar gyfer asesu****(a) Cynllunio'r dasg (10)**

Disgwylir i ymgeiswyr:	AA1 AA2
<ul style="list-style-type: none"> <li>• ddewis seigiau addas</li> <li>• cyfiawnhau rhesymau dros ddewis – yn cynnwys costio a gwerth maeth</li> <li>• cynllunio'r dasg</li> </ul>	

<b>Lefelau Cyrhaeddiad</b>	<b>Marciau</b>
A1 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig o'r dasg. Dewis gwan o seigiau heb resymau wedi'u rhoi a dim cyfeiriad at gost neu at werth maeth. Ychydig neu ddim cyfeiriad at gynllunio'r dasg. Ysgrifennu ar y cyfan yn cyfleu ystyr er bod gwallau a mynegiant gwan yn amharu ar gyfathrebu. Ychydig neu ddim defnydd o derminoleg arbenigol.	0 – 2
A2 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r dasg. Dewis cyfyngedig o seigiau gyda rhai rhesymau wedi'u rhoi a sylwadau cyffredinol ar gost a gwerth maeth. Mae trefn y gwaith yn ddilyniannol. Mae'r ysgrifennu'n dangos peth tystiolaeth o strwythur; mae'r mynegiant yn ddigonol i gyfleu ystyr, er bod gwallau i'w gweld. Ychydig ddefnydd o eirfa arbenigol.	3 – 5
A3 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o'r dasg. Seigiau addas wedi'u dewis gyda rhesymau wedi'u rhoi a chyfeiriad realistig wedi'i wneud at gost a gwerth maeth. Mae trefn y gwaith yn glir a realistig. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro i gyfathrebu ystyr yn glir, yn dangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa ac yn cynnwys nifer cymharol fach o wallau. Ceir defnydd da o derminoleg arbenigol.	6 – 8
A4 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth dda o'r dasg. Mae dewis da o seigiau wedi'u dewis gyda rhesymau dilys a dadansoddiad cywir o gost a gwerth maeth. Trefn y gwaith yn fanwl a rhesymegol. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ac yn addas i'r pwrpas, wedi ei fynegi'n glir a heb wall ar y cyfan. Defnydd da iawn o derminoleg.	9 – 10

<b>(b)</b>	<b>Cyflawni'r dasg</b>	<b>(20)</b>
------------	------------------------	-------------

Disgwylir i ymgeiswyr: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddangos medr wrth ddewis a thrafod cyfarpar ac offer</li> <li>• dangos hyfedredd wrth baratoi bwyd, cynhyrchu a gweini bwyd gan ystyried hylendid a diogelwch</li> </ul>	AA2  AA2
--	----------------

<b>Lefelau Cyrhaeddiad</b>	<b>Marciau</b>
B1 Anhawster wrth drafod cyfarpar ac offer. Yn gallu gwneud sgiliau/prosesau syml gyda llwyddiant cyfyngedig a defnydd sylfaenol o arferion hylendid a diogelwch. Mae wedi gwneud y gwaith gyda sgiliau trefnu cyfyngedig a chydag angen yn aml am gymorth. Canlyniadau'n ddiffygiol o ran ansawdd gorffeniad.	0 – 4
B2 Peth cyfarpar ac offer wedi'u trafod yn briodol a chyda rheolaeth resymol. Yn gallu cyflawni amrywiaeth o sgiliau/prosesau gan ddangos gradd o drafod a chydlynid. Peth ystyriaeth o reoli hylendid a diogelwch i'w gweld. Mae wedi gwneud y gwaith gyda chymorth o bryd i'w gilydd. Mae wedi dangos peth gallu i gwblhau tasgau o fewn yr amser penodedig. Mae canlyniadau wedi'u cyflwyno mewn modd derbyniol gyda pheth sylw wedi'i roi i ansawdd y gorffeniad.	5 – 10
B3 Tystiolaeth fod y rhan fwyaf o'r cyfarpar a'r offer wedi'i dewis yn briodol i'r tasgau gyda thrafod a chydlynid cymwys i'w gweld. Yn gallu gwneud amrywiaeth eang o sgiliau/prosesau priodol yn gymwys ac yn gallu gweithio mewn modd hylan a diogel. Yn gallu trefnu mewn ffordd resymegol ac yn cwblhau'r rhan fwyaf o'r tasgau o fewn yr amser penodedig. Yn gallu gwneud y gwaith a gynlluniwyd yn annibynnol. Wedi dangos lefel uchel o ansawdd a chywirdeb gorffen mewn canlyniadau terfynol sydd wedi'u cyflwyno'n atyniadol.	11 – 15
B4 Tystiolaeth fod cyfarpar ac offer a ddewiswyd yn briodol i bob tasg gyda thrafod a chydlynid ardderchog i'w gweld. Yn gallu gwneud amrywiaeth helaeth o sgiliau/prosesau priodol gan ddangos dehurwydd llaw manwl. Yn gallu gweithio'n gyson mewn modd hylan a diogel. Yn gallu gwneud y gwaith a gynlluniwyd yn effeithlon ac yn annibynnol mewn trefn resymegol. Caiff pob tasg ei chwblhau o fewn yr amser penodedig. Mae wedi dangos technegau llwyddiannus wedi eu cyflawni'n dda a'u cefnogi gan sgiliau arddangos datblygedig i gynhyrchu canlyniadau sy'n atyniadol o ran estheteg ac yn ardderchog o ran gorffeniad ac o ansawdd uchel.	16 – 20

<b>(c) Gwerthuso'r dasg</b>	<b>(10)</b>
-----------------------------	-------------

<p>Disgwylir i ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• werthuso derbyniadwyedd i gwsmeriaid</li> <li>• dadansoddi addasrwydd y seigiau a ddewiswyd</li> <li>• gwerthuso'r gost yn ôl y gyfran</li> <li>• gwerthuso'r gwerth maeth</li> <li>• llunio casgliadau gan wneud awgrymiadau i wella.</li> </ul>	<p>AA3 AA3 AA3 AA3</p>
--	------------------------------------

<b>Lefelau Cyrhaeddiad</b>	<b>Marciau</b>
<p>C1 Dadansoddi gwan, gyda sylwadau cyfyngedig ar flas, gwead ac ymddangosiad, addasrwydd seigiau, cynnwys maeth a chostio. Casgliadau gwan wedi'u llunio. Cyfeiriadau'n rhy gyffredinol ac yn ddiffygiol o ran manylion penodol. Awgrymiadau cyfyngedig iawn ar gyfer gwelliant neu ddatblygiadau pellach. Gwybodaeth wedi'i threfnu'n wan. Ychydig neu ddim defnydd o iaith arbenigol a gwallau mynych mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	0 – 2
<p>C2 Dadansoddiad cyfyngedig, sylwadau arwynebol ar flas, gwead ac ymddangosiad, addasrwydd seigiau a chanlyniadau gyda chasgliadau sylfaenol wedi'u llunio. Cyfeiriad sylfaenol iawn at faint cyfrannau, costio a chynnwys maeth. Awgrymiadau cyfyngedig ar gyfer gwella'r gwaith a mân awgrymiadau am ddatblygiadau pellach. Gwybodaeth yn dangos tystiolaeth o strwythur. Defnydd cyfyngedig o iaith arbenigol, mynegiant yn cyfleu ystyr ond gwallau'n i'w gweld mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	3 – 5
<p>C3 Ymdrech resymol i ddadansoddi a sylwadau priodol ar flas, gwead ac ymddangosiad, addasrwydd seigiau a chanlyniadau a pheth ystyriaeth o faint cyfrannau, cost a dadansoddiad maeth. Rhai awgrymiadau realistig ar gyfer gwella'r gwaith a datblygiadau pellach. Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda. Defnydd da o iaith arbenigol gyda rhai gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>	6 – 8
<p>C4 Dadansoddiad cyflawn a sylwadau wedi'u cyfiawnhau ar flas, gwead ac ymddangosiad ac addasrwydd seigiau. Dadansoddiad manwl ac ystyriaeth o faint cyfrannau, costau a chynnwys maeth gyda sylwadau gwerthuso priodol. Awgrymiadau synhwyrol ar gyfer datblygu gwaith pellach. Tystiolaeth o gynigion realistig a dychmygus ar gyfer gwella/addasu. Gwybodaeth wedi ei threfnu'n dda ac wedi'i chyflwyno mewn modd priodol iawn. Defnydd da iawn o iaith arbenigol gydag ychydig wallau sillafu, atalnodi a gramadeg</p>	9 – 10

**Tasg 2 – Meini prawf ar gyfer asesu**

**(a) Archwilio a chynllunio'r dasg (25)**

Disgwylir i ymgeiswyr:	AA2 AA1 AA3 AA2
<ul style="list-style-type: none"> <li>• ymchwilio ac archwilio'r dasg</li> <li>• defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddewis prydau</li> <li>• cyfiawnhau dewis o bryd - i gynnwys costio a chynnwys maeth</li> <li>• cynhyrchu dilyniant o waith</li> </ul>	

<b>Lefelau Cyrhaeddiad</b>	<b>Marciau</b>
A1 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig o'r dasg. Bydd ymchwil yn cynnwys ychydig wybodaeth o ffynonellau cyfyngedig. Dewis anaddas o seigiau heb resymau wedi'u rhoi a heb gyfeirio at werth maeth na chostio. Dilyniant gwaith yn brin o fanylion. Ysgrifennu ar y cyfan yn cyfleu ystyr er bod gwallau a mynegiant gwan yn amharu ar gyfathrebu. Ychydig neu ddim defnydd o eirfa arbenigol.	0 – 5
A2 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r dasg. Bydd ymchwil yn cynnwys peth gwybodaeth o ffynonellau cyfyngedig. Rhai seigiau addas wedi'u dewis gyda rhesymau digonol ar gyfer y dewis a sylwadau cyffredinol ar gynnwys maeth neu gostio. Dilyniant gwaith yn amlwg. Mae'r ysgrifennu'n dangos peth tystiolaeth o strwythur; mae'r mynegiant yn ddigonol i gyfleu ystyr, er bod gwallau i'w gweld. Defnydd o eirfa arbenigol yn gyfyngedig.	6 –12
A3 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o'r dasg. Bydd ymchwil yn cynnwys gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Seigiau addas wedi'u dewis gyda rhesymau wedi'u rhoi a chyfeiriad realistig at gost a chynnwys maeth. Mae dilyniant y gwaith yn rhesymegol. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro i gyfathrebu ystyr yn glir ac yn cynnwys swm cymharol fach o wallau. Defnydd o eirfa arbenigol yn gywir.	13 – 19
A4 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth dda o'r dasg. Ymchwil yn drylwyr gan ddefnyddio a chymhwyso amrywiaeth o adnoddau. Mae dewis da o seigiau wedi'u dewis gyda rhesymau dilys wedi'u rhoi a dadansoddiad cywir o gost a chynnwys maeth. Mae dilyniant y gwaith yn fanwl, yn bwrpasol a rhesymegol. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ac yn addas i'r pwrpas, wedi ei fynegi'n glir a heb wall ar y cyfan. Mae geirfa arbenigol wedi'i defnyddio'n briodol.	20 – 25

<b>(b) Cyflawni'r dasg</b>	<b>(40)</b>
----------------------------	-------------

Disgwylir i'r ymgeisydd:  ddangos sgiliau cysylltiedig â - <ul style="list-style-type: none"> <li>• hylendid personol</li> <li>• hylendid cegin</li> <li>• diogelwch (bwyd a'r hunan)</li> <li>• dilyniant gwaith</li> <li>• dewis a defnyddio offer</li> <li>• cynhyrchu'r pryd</li> <li>• rheoli cyfrannau</li> <li>• cyflwyno pryd gorffenedig</li> <li>• gweini'r pryd</li> </ul>	AA2
---	-----

<b>Lefelau Cyrhaeddiad</b>	<b>Marciau</b>
B1 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig o arferion gwaith diogel a dilyniant gwaith wrth gynhyrchu a gweini'r pryd. Dewis a defnydd anghywir o offer. Pryd wedi'i gynhyrchu gyda llwyddiant cyfyngedig. Rheoli cyfrannau heb ei nodi. Bydd cyflwyno a gweini'r pryd yn gyfyngedig.	0 – 10
B2 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o arferion gwaith diogel a dilyniant gwaith wrth gynhyrchu'r pryd. Peth gwybodaeth o ddewis a defnydd cywir o offer. Pryd wedi'i gynhyrchu gan ddangos amrywiaeth o sgiliau gyda pheth llwyddiant. Ymgais i reoli cyfrannau. Bydd cyflwyno a gweini'r pryd yn sylfaenol.	11 – 20
B3 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth dda o arferion gweithio diogel a bydd yn gweithio mewn modd hyderus, cymwys a threfnus, gan ddefnyddio offer cywir. Pryd wedi'i gynhyrchu'n llwyddiannus gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau priodol. Bydd rheoli cyfrannau'n amlwg. Bydd cyflwyno a gweini'r pryd o safon dda.	21 – 30
B4 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth a defnydd o arferion gweithio diogel, gan ddefnyddio offer cywir. Pryd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau priodol tra'n cael canlyniadau o safon uchel yn gyson, gan ddangos hyfedredd a blaengaredd yn y cyfan. Bydd rheoli cyfrannau'n gywir yn amlwg. Bydd cyflwyno a gweini'r pryd o safon uchel.	31 – 40

<b>(c) Gwerthuso'r dasg</b>	<b>(15)</b>
-----------------------------	-------------

Disgwylir i'r ymgeisydd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• werthuso pa mor dderbyniol yw'r pryd i'r cwsmer</li> <li>• dadansoddi a gwerthuso cynnwys maeth y pryd</li> <li>• gwerthuso cost y pryd a chysylltu hyn â maint yr elw</li> </ul>	AA3 AA3 AA3
---	-------------------

<b>Lefelau Cyrhaeddiad</b>	<b>Marciau</b>
<p>C1 Bydd yr ymgeisydd yn rhoi disgrifiad o'r pryd gorffenedig gydag ychydig neu ddim cyfeirio at y cwsmer. Ychydig o ymgais a wnaed i gostio'r pryd gydag ychydig neu ddim cyfeirio at faint yr elw. Peth cyfeirio at faeth. Ysgrifennu ar y cyfan yn cyfleu ystyr er bod gwallau a mynegiant gwan yn amharu ar gyfathrebu. Ychydig neu ddim defnydd o eirfa arbenigol.</p>	0 – 3
<p>C2 Bydd yr ymgeisydd yn rhoi dadansoddiad byr o'r pryd gorffenedig mewn cysylltiad ag ymddangosiad, gwead a blas a pheth cyfeirio at y cwsmer. Ymgais byr wedi'i wneud i gostio'r pryd a chyfrifo maint yr elw. Dadansoddiad cyfyngedig o gynnwys maeth. Ysgrifennu'n dangos peth tystiolaeth o strwythur; mae'r mynegiant yn ddigonol i gyfleu ystyr, er bod rhai gwallau i'w gweld. Defnydd o iaith arbenigol yn gyfyngedig.</p>	4 – 7
<p>C3 Bydd yr ymgeisydd yn gwerthuso'r pryd gorffenedig o ran ymddangosiad, gwead a blas, gan gyfeirio at ba mor dderbyniol ydyw i'r cwsmer. Caiff costio ei werthuso a chyfeirir at faint yr elw. Dadansoddiad maeth o'r pryd yn gywir ac wedi'i esbonio. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro i gyfathrebu ystyr yn glir ac yn cynnwys swm cymharol fach o wallau. Defnydd o eirfa arbenigol yn gywir.</p>	8 – 11
<p>C4 Bydd yr ymgeisydd yn gwerthuso'r pryd gorffenedig gyda dadansoddiad manwl o flas, gwead ac ymddangosiad gan ddefnyddio mesurau priodol o dderbyniadwyedd i gwsmeriaid. Mae'r pryd wedi'i gostio'n gywir ac mae maint yr elw wedi'i gyfrifo'n gywir gan ddefnyddio fformiwla dderbyniol. Caiff y cynnwys maeth ei ddadansoddi a'i werthuso mewn perthynas â'r dasg. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ac yn addas i'r pwrpas, wedi ei fynegi'n glir a heb wall ar y cyfan. Mae'r defnydd o eirfa arbenigol yn briodol.</p>	12 – 15



### Uned 3 Trefn Asesu

Caiff y marc am bob adran o'r dasg ei seilio ar farn am ba un o'r pedair lefel cyrhaeddiad - a phob un yn disgrifio gwaith ymgeisydd nodweddiadol yn gweithio tuag at raddau tybiannol G/F, E/D, C/B, A/A\* – sydd fwyaf addas i'r gwaith (gweler gridiau asesu).

#### **D.S. Mae hi'n bwysig pwysleisio fod perthynas y marc/gradd yn dybiannol ac y bydd y broses ddyfarnu'n pennu'r ffiniau gradd gwirioneddol.**

Ni fydd gwaith ymgeiswyr bob amser yn ffitio'r disgrifiadau hyn, h.y. hyd yn oed o fewn un adran gall fod proffil cymysg o sgiliau a dealltwriaeth; lle y dangosir sgiliau lefel uwch ond lle nad yw'r ymgeisydd wedi bodloni rhai o'r meini prawf lefel is dylid ystyried a yw'r ymgeisydd yn haeddu'r band marciau uwch. Rhaid cofio yn enwedig nad yw marciau llawn yn cael eu cyfyngu i ffolio 'model' damcaniaethol, a rhaid eu dyfarnu am waith gyda'r gorau y gellid ei ddisgwyl gan ymgeiswyr yn gweithio ar y lefel hon.

Ar ôl sefydlu'r lefel briodol o gyrhaeddiad, rhaid pennu marc penodol. Wrth wneud hyn, dylid ystyried yr agweddau canlynol:

- Ydy'r ymgeisydd ond wedi bodloni meini prawf ar gyfer lefel cyrhaeddiad (os felly dylent gael marc ar waelod y band) neu ydyn nhw wedi bodloni'r meini prawf yn gysurus (os felly dylent gael marc tuag at ben uchaf y band)?
- Ydy'r cyrhaeddiad yn gyson neu'n amrywio? Er enghraifft, bydd gwaith sy'n dangos tystiolaeth achlysurol o sgiliau dadansoddi, gan ei gymryd i fand C/B yn hytrach nag E/D, yn cael ei wobrwyo'n llai uchel yn y band hwnnw na gwaith lle y mae'r sgiliau hyn yn amlwg yn fwy cyson. Yr un pryd, mae hi'n bwysig nodi na ddylai swm y dystiolaeth *ohono'i hun* ddylanwadu'n ormodol ar yr asesu.
- A oes unrhyw heriau penodol a gyflwynir gan y dasg arbennig a wneir (e.e. o ran deunyddiau/cyd-destun neu ddull) y dylid eu hystyried (h.y. galwadau cynhenid yn y dasg hyd yn oed os disgwylir i'r gwahaniaethu fod yn bennaf yn ôl canlyniad)?

**UNED 3 SGILIAU LLETYGARWCH**

**Tasg Wedi'i seilio ar Achlysur – Meini prawf ar gyfer asesu**

**(a) Archwilio'r dasg (20)**

Disgwylir i'r ymgeisydd:	
<ul style="list-style-type: none"> <li>ymchwilio a dewis gwybodaeth briodol – achlysuron posibl a grwpiau targed lleoliadau staffio adnoddau amseru proffil cwsmeriaid seigiau/bwydlen</li> </ul>	AA1 AA2 AA3

Lefelau Cyrhaeddiad	Marciau
A1 Bydd yr ymgeisydd yn cynhyrchu cofnod cyfyngedig o'i ymchwil, gan gynnwys gwybodaeth o ffynonellau cyfyngedig heb gyfeiriad at raddfa amser. Ysgrifennu ar y cyfan yn cyfleu ystyr er bod gwallau a mynegiant gwan yn amharu ar gyfathrebu. Ychydig neu ddim defnydd o eirfa arbenigol.	0 – 5
A2 Bydd yr ymgeisydd yn cynhyrchu cofnod o ymchwil gan ddethol gwybodaeth briodol a dangos peth dealltwriaeth o'r digwyddiad gan gyfeirio at y raddfa amser gyffredinol. Mae'r ysgrifennu'n dangos peth tystiolaeth o strwythur; mae'r mynegiant yn ddigonol i gyfleu ystyr, er bod gwallau i'w gweld. Defnydd o eirfa arbenigol yn gyfyngedig.	6 – 10
A3 Bydd yr ymgeisydd yn cynhyrchu cofnod o ymchwil gan ddethol a dehongli gwybodaeth briodol sy'n dangos eu dealltwriaeth o'r digwyddiad a'u gwybodaeth amdano gyda graddfeydd amser realistig wedi'u nodi. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro i gyfathrebu ystyr yn glir ac yn cynnwys swm cymharol fach o wallau. Defnydd o eirfa arbenigol yn gywir.	11 – 15
A4 Bydd yr ymgeisydd yn cynhyrchu cofnod o ymchwil gan ddangos dewis, dehongli a dadansoddi gwybodaeth briodol a chan ddangos gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth o'r digwyddiad gydag amseru manwl a realistig wedi'i bennu. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ac yn addas i'r pwrpas, wedi ei fynegi'n glir a heb wall ar y cyfan. Mae geirfa arbenigol wedi'i defnyddio'n briodol.	16 – 20

<b>(b) Cynllunio'r dasg</b>	<b>(15)</b>
-----------------------------	-------------

Disgwylir i'r ymgeisydd:	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ddefnyddio'i wybodaeth i gynhyrchu cynllun gweithredu manwl</li> </ul>	AA2

<b>Lefelau Cyrhaeddiad</b>	<b>Marciau</b>
B1 Bydd yr ymgeisydd yn amlinellu cynllun ar gyfer y digwyddiad sy'n cynnwys ychydig gyfeirio at fanylion. Ysgrifennu ar y cyfan yn cyfleu ystyr er bod gwallau a mynegiant gwan yn amharu ar gyfathrebu. Ychydig neu ddim defnydd o eirfa arbenigol.	0 – 3
B2 Bydd yr ymgeisydd yn cynhyrchu cynllun wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer trefnu'r digwyddiad. Ysgrifennu'n dangos peth tystiolaeth o strwythur; mae'r mynegiant yn ddigonol i gyfleu ystyr, er bod gwallau i'w gweld. Defnydd o eirfa arbenigol yn gyfyngedig.	4 – 7
B3 Bydd yr ymgeisydd yn cynhyrchu cynllun manwl gan archwilio ystod o drefnau angenrheidiol ar gyfer cynllunio'r digwyddiad yn effeithiol. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro i gyfathrebu ystyr yn glir ac yn cynnwys swm cymharol fach o wallau. Defnydd o eirfa arbenigol yn gywir.	8 – 11
B4 Bydd yr ymgeisydd yn cynhyrchu cynllun effeithiol a dilyniannol sy'n cefnogi'r digwyddiad yn llawn ac sy'n dangos gwybodaeth a blaengaredd. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ac yn addas i'r pwrpas, wedi ei fynegi'n glir a heb wall ar y cyfan. Mae geirfa arbenigol wedi'i defnyddio'n briodol.	12 – 15

<b>(c) Cyflawni'r dasg</b>	<b>(60)</b>
----------------------------	-------------

<p>Disgwylir i ymgeiswyr:</p> <p>ddefnyddio'r sgiliau canlynol yn y dasg:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyflwyniad personol</li> <li>• arferion diogelwch/asesiad risg (gan gynnwys hylendid)</li> <li>• sgiliau ymarferol</li> <li>• sgiliau trefniadol</li> </ul>	AA2
--	-----

<b>Lefelau Cyrhaeddiad</b>	<b>Marciau</b>
<p>C1 Anhawster wrth drafod cyfarpar ac offer. Yn gallu gwneud sgiliau/prosesau syml gyda llwyddiant cyfyngedig a defnydd sylfaenol o arferion hylendid a diogelwch. Mae wedi gwneud y gwaith a gynlluniwyd gyda sgiliau trefnu cyfyngedig a bydd angen wedi bod am gymorth mynych.</p>	0 – 15
<p>C2 Peth cyfarpar ac offer wedi'u trafod yn briodol a chyda rheolaeth resymol. Yn gallu cyflawni amrywiaeth o sgiliau/prosesau gan ddangos gradd o drafod a chydlyniad. Peth ystyriaeth o reoli hylendid a diogelwch i'w gweld. Mae wedi gwneud y gwaith a gynlluniwyd gyda chymorth o bryd i'w gilydd. Mae wedi dangos peth gallu i drefnu amser i gwblhau tasgau o fewn yr amser penodedig.</p>	16 – 30
<p>C3 Tystiolaeth fod y rhan fwyaf o'r cyfarpar a'r offer wedi'i dewis yn briodol i'r tasgau, gan ddangos trafod a chydlyniad yn gymwys. Yn gallu gwneud amrywiaeth eang o sgiliau/prosesau priodol yn gymwys ac yn gallu gweithio mewn modd hylan a diogel. Yn gallu trefnu gwaith mewn ffordd resymegol ac yn cwblhau'r rhan fwyaf o'r tasgau o fewn yr amser penodedig. Yn gallu gwneud y gwaith a gynlluniwyd yn annibynnol. Wedi dangos lefel uchel o ansawdd sydd wedi sicrhau digwyddiad llwyddiannus.</p>	31 – 45
<p>C4 Tystiolaeth fod cyfarpar ac offer a ddewiswyd yn briodol i bob tasg gyda thrafod a chydlyniad ardderchog i'w gweld. Yn gallu gwneud amrywiaeth helaeth o sgiliau/prosesau priodol gan ddangos dehurwydd llaw manwl. Yn gallu gweithio'n gyson mewn modd hylan a diogel. Yn gallu gwneud y gwaith a gynlluniwyd yn effeithlon ac yn annibynnol mewn trefn resymegol. Caiff pob tasg ei chwblhau o fewn yr amser penodedig. Wedi dangos technegau llwyddiannus a wnaed yn dda wedi'u cefnogi gan sgiliau uchel i gynhyrchu digwyddiad llwyddiannus.</p>	46 – 60

<b>(ch) Gwerthuso'r dasg</b>	<b>(25)</b>
------------------------------	-------------

Disgwylir i ymgeiswyr:	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• werthuso ansawdd y digwyddiad</li> <li>• awgrymu gwelliannau</li> </ul>	AA3 AA3

<b>Lefelau Cyrhaeddiad</b>	<b>Marciau</b>
D1 Bydd yr ymgeisydd yn rhoi disgrifiad o gryfderau a gwendidau'r digwyddiad heb gyfeirio at raddfa amser. Ysgrifennu ar y cyfan yn cyfleu ystyr er bod gwallau a mynegiant gwan yn amharu ar gyfathrebu. Ychydig neu ddim defnydd o eirfa arbenigol.	0 – 7
D2 Bydd yr ymgeisydd yn rhoi disgrifiad o gryfderau a gwendidau'r digwyddiad gyda chyfeirio cyfyngedig at raddfa amser a rhai argymhellion ar gyfer gwelliant. Mae'r ysgrifennu'n dangos peth tystiolaeth o strwythur; mae'r mynegiant yn ddigonol i gyfleu ystyr, er bod gwallau i'w gweld. Defnydd o eirfa arbenigol yn gyfyngedig.	8 – 13
D3 Bydd yr ymgeisydd yn defnyddio meini prawf i gynhyrchu gwerthusiad o'r digwyddiad gydag asesiad realistig o amser a neilltuir. Wedi awgrymu meysydd a threfnau ar gyfer gwella. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro i gyfathrebu ystyr yn glir ac yn cynnwys swm cymharol fach o wallau. Defnydd o eirfa arbenigol.	14 – 19
D4 Bydd yr ymgeisydd yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau gwerthuso ac yn cynhyrchu gwerthusiad beirniadol o'r digwyddiad i gynnwys gwerthusiad o ddyrannu amser, caiff argymhellion ar gyfer gwella eu targedu gan ddangos annibyniaeth meddwl. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ac yn addas i'r pwrpas, wedi ei fynegi'n glir a heb wall ar y cyfan. Mae geirfa arbenigol wedi'i defnyddio'n briodol.	20 – 25

<b>UNED 1 TASG 1 &amp; 2</b>	<b>AA1</b>	<b>AA2</b>	<b>AA3</b>	<b>CYFANSWM</b>	<b>Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig</b>
(a) Archwilio/ Cynllunio'r dasg	5 5	5 15	- 5	35	✓
(b) Cyflawni'r dasg	- -	20 40	- -	60	
(c) Gwerthuso'r dasg	- -	- -	10 15	25	✓
<b>CYFANSWM</b>	<b>10</b>	<b>80</b>	<b>30</b>	<b>120</b>	

<b>UNED 3 TASG AR SAIL ACHLYSUR</b>	<b>AA1</b>	<b>AA2</b>	<b>AA3</b>	<b>CYFANSWM</b>	<b>Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig</b>
(a) Archwilio	10	5	5	20	✓
(b) Cynllunio	-	15	-	15	✓
(c) Cyflawni'r dasg	-	60	-	60	
(ch) Gwerthuso	-	-	25	25	✓
<b>CYFANSWM</b>	<b>10</b>	<b>80</b>	<b>30</b>	<b>120</b>	